Mentora Amlieithog
Multilingual Mentoring

## Funktionale Analphabeten in Deutschland

Cwblhewch y gweithgareddau paratoi canlynol yna gwyliwch y fideo a chwblhewch y cwis rhyngweithiol – MWYNHEWCH!

1. **Mae’r geiriau canlynol yn ymddangos yn y clip fideo, chwiliwch eu hystyr mewn geiriadur: *cofiwch fod gan rai geiriau mwy nag 1 ystyr felly cofnodwch y rhai sydd fwyaf addas i thema’r fideo**

- Analphabeten (g,ll)
- ausgelacht
- nutzlos
- verbessern
- auswendig
- gucken
- sich schämen
- geschwänzt
- Tafel (b)
- arbeitslos
- merken
- Prüfung (f)
- Schulabschluss (m)
- funktional
- ausfüllen
- Formular (diryw/neuter)

1+ yw’r gradd uchaf yn yr Almaen, sy’n cyfateb i A* yma yng Nghymru

2. **Mae’r 3 brawddeg Almaeneg canlynol yn defnyddio rhai o’r geiriau o’r dasg gyntaf. Cyfieithwch nhw i’r Gymraeg.**

- Ich habe das Schauspiel auswendig gelernt.
- Da der Junge die Tafel nicht sehen konnte, hat er den Unterricht geschwänzt.
- Sie schämte sich, dass sie den neuen Film im Kino nicht geguckt hatte.

3. **Mae'r 3 brawddeg Gymraeg ganlynol yn defnyddio rhai o'r geiriau o'r dasg gyntaf. Cyfieithwch y brawddegau i'r Almaeneg.**

- Dydw i ddim wedi llenwi'r ffurflenni oherwydd dydw i ddim yn gallu darllen.
- Mae nifer o bobl ifanc sy'n anllythrennog yn ddi-waith.
- Mae'n bwysig dysgu'r geiriau ar gof, yna fe allwch chi ennill gradd dda!

## Gramadeg:

**Yr amser perffaith** Yn Almaeneg rydyn ni'n defnyddio'r amser perffaith i sôn am ddigwyddiadau rheolaidd yn y gorffennol. Rydych chi'n ffurfio'r amser perffaith trwy ddefnyddio'r berfau cynorthwyol (auxiliary verbs) ***haben*** a ***sein*** gyda rhangymeriadau rheolaidd ac afreolaidd y gorffennol (regular and irregular past participles).

Ffurfio'r **amser perffaith**. Mae angen 3 pheth i ffurfio'r amser perffaith:

Y **goddrych (subject)** + **berf gynorthwyol (auxiliary)** + **rhangymeriad y gorffennol**, er enghraifft:

Ich habe gesehen – Gwelais i (I saw)

Ich (**goddrych**) habe (**berf gynorthwyol**) gesehen (**rhangymeriad y gorffennol**)

Wir sind geschwommen – Nofion ni (We swam)

Wir (**goddrych**) sind (**berf gynorthwyol**) geschwommen (**rhangymeriad y gorffennol**)

Das Mädchen ist gegangen – Aeth y ferch (The girl went)

Das Mädchen (**goddrych**) ist (**berf gynorthwyol**) gegangen (**rhangymeriad y gorffennol**)

- Sut ydyn ni'n gwybod pryd i ddefnyddio **haben** a phryd i ddefnyddio **sein** yn yr amser perffaith?

Defnyddiwn **sein** gyda berfau **symudiad** e.e. schwimmen (nofio) springen (neidio)

**OND** mae yna 3 berf bwysig sy'n defnyddio **sein** sydd **DDIM** yn ferfau symudiad sef
bleiben (aros), werden (dod/mynd yn '*to become*') a sein (bod)

Dilynwch y ddolen isod i ddarganfod rhagor o wybodaeth am hyn:
https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/ztfd7hv/revision/3

**Is-gymalau (subordinate clauses)** Mae yna frawddegau mwy cymhleth yn Almaneg sy'n cynnwys geiriau megis ***'weil'*** neu ***'dass'*** sy'n golygu bod angen i'r ferf symud i ddiwedd y cymal(clause).

- Ich hoffe, dass ich meine Freunde **treffe**.
  Rwy'n gobeithio **cwrdd** â fy ffrindiau
- Lesen ist für mich wichtig, weil ich Bücher **liebe**.
  Mae darllen yn bwysig imi oherwydd **rwy'n caru** llyfrau.

Mae'n bwysig ceisio ymestyn eich brawddegau er mwyn ennill mwy o farciau, gallwch chi ymarfer gan ddilyn y strwythur canlynol:

Ich hoffe dass…..

(Etwas/Es/Das) ist für mich wichtig, weil…